Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

| | | |
|---|---|---|
| **Cyfarfod:** | **Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu** | |
| **Lleoliad:** | **Pencadlys yr Heddlu** | |
| **Dyddiad:** | **13 Ebrill 2015** | |
| **Amser:** | **1:30pm – 15:30** | |

| | |
|---|---|
| **Aelodau:** | Mr Christopher Salmon, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh)<br>Prif Gwnstabl, Simon Prince (PG)<br>Prif Gwnstabl Cynorthwyol, Simon Powell (PGC)– yn bresennol am eitemau 1 i 3c<br>Ms Samantha Gainard, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Chydymffurfio (SG)<br>Mr Edwin Harries, Cyfarwyddwr Cyllid (CC)<br>Mr Adrian Williams, Cyfarwyddwr Adnoddau (CA)<br>Mrs Jayne Woods, Prif Swyddog Ariannol (PSA) |
| **Hefyd yn bresennol:** | Uwch-arolygydd Dros Dro Chris Curtis (CCu) – yn bresennol am eitemau 1 i 3c<br>Rhingyll Christina Fraser, Swyddog Staff i'r Prif Gwnstabl (CF)<br>Dr Helen Morgan-Howard, Pennaeth Staff, SCHTh (HM-H)<br>Mrs Sharon Richards, Rheolwr Perfformiad, SCHTh (SR)<br>Mrs Kerrie Phillips, Ymgynghorydd Polisi, SCHTh (KP)<br>Mr Dan Allbon, Ymgynghorydd Cysylltiadau Cwsmer (DA)<br>Mrs Siân Jenkins, Rheolwr Swyddfa, SCHTh (SJ) |
| **Ymddiheuriadau:** | Mr Tim Burton, Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu (DGHTh)<br>Dirprwy Brif Gwnstabl, Carl Langley (DBG) |

| CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU | | |
|---|---|---|
| Rhif Cam Gweithredu | Crynodeb | Cynnydd: |
| **PAB 202** | **DGHTh i adborthi i Gwalia y pryderon a godwyd gan CF ynghylch yr angen i gryfhau cyfathrebu rhwng Gwalia a Datblygu Cymdogaethau.** | **Ar waith – y mater wedi'i godi** |
| **PAB 203** | **Yr Heddlu i ddarparu adborth i'r peilot Cyswllt Alcohol ar y marc 6 mis.** | **Ar waith** |
| **PAB 204** | **DGHTh a CHTh i drafod dyfodol cronfa'r Comisiynydd gyda'r PG.** | **Ar waith – i'w drefnu** |
| **PAB 205** | **PGC a SR i wirio ffigurau cymarebau digwyddiadau i droseddau er mwyn sicrhau gweithio oddi ar yr un ffigurau.** | **Cwblhawyd** |
| **PAB 206** | **CF i gadarnhau a oedd unrhyw ddelweddau o bobl ddiniwed wedi'u llwytho i fyny i'r gronfa ddata Adnabod Cenedlaethol.** | **Cwblhawyd – darparwyd delweddau i'r gronfa ddata ond ni** |

| | | |
|---|---|---|
| | | **ddefnyddiwyd hwy (nid oeddynt yn cydymffurfio â gofynion ansawdd)** |

**Cofnodion cyfarfod y Bwrdd Atebolrwydd a gynhaliwyd ar 30 Mawrth 2015 a Materion yn Codi**

Cytunwyd bod cofnodion cyfarfod diwethaf Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu'n gofnod gwir a chywir o'r cyfarfod gan wneud rhai mân newidiadau i'r cynnwys.

**Adroddiad Atebolrwydd yr Heddlu ar Flaenoriaeth 4**

Cyflwynodd yr Uwch-arolygydd Curtis trosolwg o Adroddiad Atebolrwydd yr Heddlu ar Flaenoriaeth 4 – Gwella mynediad i Wasanaethau Plismona.

***Holiaduron Bodlonrwydd Dioddefwyr***

Ni ddarparwyd diweddariad gan yr Heddlu.

Gan na fyddai Cymorth i Ddioddefwyr bellach yn gallu ymgymryd â gwaith Bodlonrwydd Defnyddwyr ar ran yr Heddlu, bydd SCHTh yn anfon y gwaith hwn allan o fis Ebrill. Roedd lefelau bodlonrwydd ar gyfer pob chwarter wedi'u cofnodi yn yr adroddiad.

Gofynnodd SR sut yr oedd Dyfed-Powys yn cymharu ag ardaloedd eraill o ran dilyniant bodlonrwydd mewn perthynas â throseddau treisgar gan eu bod yn arbennig o isel. Dwedodd y PGC nad oedd yn ymwybodol fod gan yr Heddlu'r wybodaeth honno wrth law ond roedd yn glir bod dilyniant i droseddau treisgar yn faes yr oedd angen ei gwella. Nododd SR fod nifer yr ymatebion yn isel ar gyfer pob chwarter ac felly ei fod yn anodd gwneud unrhyw ddyfarniad. Rhagwelwyd y byddai mwy o ddata ar gael ar gyfer adroddiadau yn y dyfodol gyda Tracio Fy Nhrosedd a gwasanaethau eraill mewn lle. Awgrymodd CHTh os nad oedd samplau mawr ar gael am gyfnodau penodedig yna y gellid edrych ar samplau dros gyfnod hirach o amser a fyddai'n darparu data a fyddai'n rhoi ychydig mwy o hyder. Nododd y PGC y byddai'r dadansoddiad o'r wybodaeth a gasglwyd a deall beth yw'r materion o gymorth wrth symud ymlaen. Nododd y PG os byddai maes lle'r oedd angen dadansoddiad pellach fel y dilyniannau yna y dylid edrych ar sampl mwy a gofyn cwestiynau manylach. Mae'n bosibl y byddai angen comisiynu hyn ar wahân yn hytrach na cheisio tynnu gormod o sampl data bychan.

***Cwnstabliaid Gwirfoddol***

Nododd yr Uwch-arolygydd Curtis mai yng Ngogledd Powys a Cheredigion y bu'r prif ffocws wrth recriwtio Cwnstabliaid Gwirfoddol newydd ac y derbyniwyd 43 o geisiadau ar gyfer yr ardaloedd Heddlu hynny. Roedd angen mynd trwy nifer o brosesau mewnol eto cyn y byddid yn recriwtio. Roedd recriwtio o fewn ardaloedd eraill yr Heddlu wedi cymryd cam yn ôl ar hyn o bryd. Roedd atodiadau wedi'u cynnwys yn yr adroddiad yn dangos y ffigurau sefydlu tymor hir cynlluniedig a'r cynllun recriwtio a chadw cyfredol.

Gofynnodd CHTh a oedd unrhyw oblygiadau o'r ymchwil a wnaed gan Gwnstabliaid Gwirfoddol Avon a Somerset a oedd wedi archwilio i gadw Cwnstabliaid Gwirfoddol o fewn Avon a Somerset. Dwedodd yr Uwch-arolygydd Curtis nad oedd unrhyw oblygiadau arwyddocaol i Dyfed-Powys ac eithrio iddo fod yn broses darganfod ffeithiau a meincnodi. Ychwanegodd y PGC fod yr adroddiad wedi nodi peth symud ymlaen ond nid oedd yn rhoi adroddiad o beth oedd y proffil cyfredol, beth oedd y proffil cynlluniedig, ble'r oedd y bwlch ac a oedd yr ymgyrch recriwtio yn llwyddo.

Cadarnhaodd yr Uwch-arolygydd Curtis mai ychydig dros 100 fyddai nifer y Cwnstabliaid Gwirfoddol gyda'r recriwtio sy'n digwydd ar hyn o bryd; mae recriwtio ar waith a disgwylir iddo barhau, gyda tharged o 200. Nododd y PGC y byddai wedi bod yn ddefnyddiol cynnwys y wybodaeth honno yn yr adroddiad. Nododd y PG y byddai'r wybodaeth yn cael ei chynnwys mewn adroddiad dilynol.

***Strategaeth Plismona Gwledig***

Nododd yr Uwch-arolygydd Curtis fod y Strategaeth Plismona Gwledig a'r cynllun gweithredu creiddiol wedi eu cymeradwyo ac wedi eu lansio'n ffurfiol ar 17 Mawrth. Roedd gwaith ar droed o ran rhai o'r Timau Plismona Bro yn dod yn hyrwyddwyr gwledig er mwyn dechrau perchnogi hynny o fewn eu hardaloedd.

Gofynnodd SR a oedd yna unrhyw gerrig milltir allweddol yn y Cynllun Gweithredu yr oedd yr Heddlu'n dymuno canolbwyntio arnynt. Dwedodd yr Uwch-arolygydd Curtis fod y cynllun yn dal i fod yn waith ar ei hanner ac y byddai'r prif flaenoriaethau a graddfeydd amser yn cael eu nodi ar gyfer pob ardal ar ôl trafod gyda'r timau plismona bro gwledig.

**Cam Gweithredu: Yr Uwch-arolygydd Curtis a Thimau Plismona Bro i nodi'r blaenoriaethau allweddol ar gyfer pob ardal a'r graddfeydd amser.**

*Gorsafoedd Heddlu Symudol*

Crynhodd yr Uwch-arolygydd Curtis gynnydd y pedwar Gorsaf Heddlu Symudol (GHS) a'r cynllun oedd bod yr un gyntaf i'w derbyn ar ddiwedd Ebrill. Byddai dyluniadau terfynol ar gyfer y gwaith graffeg yn cael eu cyflwyno i Brif Swyddogion, Uwch Reolaeth a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu o fewn y bythefnos nesaf i'w cymeradwyo. Bydd y tair GHS arall wedi'u cwblhau ac ar gael i'w trosglwyddo'n lleol ar ddiwedd mis Mai. Bydd Swyddogion Cefnogi Cymunedol yr Heddlu penodol i bob GHS, a bydd gan y GHS amserlen benodol a fydd yn cael ei gyhoeddi ar-lein yn wybodaeth gyhoeddus. Unwaith y bydd y Gorsafoedd Heddlu Symudol yn weithredol bydd eu defnydd yn cael ei fonitro.

Nododd CHTh ei bod yn galonogol y byddai'r Gorsafoedd Heddlu Symudol yn weithredol ym mis Mai ar ôl y ddwy flynedd yr oedd wedi cymryd i gyflawni hynny. Gofynnodd CHTh am gyfanswm costau'r Gorsafoedd Heddlu Symudol - nid oedd y ffigwr cyflawn i law ond cadarnhawyd bod y gyllideb gyfan wedi'i defnyddio. Gofynnodd CHTh am ddadansoddiad o'r holl gostau, gan gynnwys cyfanswm costau pob cerbyd, costau'r cydrannau o fewn y cerbydau, unrhyw gostau cyfredol o'u rhedeg a goblygiadau'r costau cyfredol hynny.

**Cam Gweithredu: Yr Heddlu i ddarparu crynodeb o gostau'r gorsafoedd heddlu symudol gan gynnwys costau rhedeg cyfredol.**

Gofynnodd CHTh sut y byddai'r Gorsafoedd Heddlu Symudol yn cael eu defnyddio. Dilynodd trafodaeth ar sut y byddai lleoliadau ar gyfer y cerbydau'n cael eu pennu. Cadarnhaodd y PG y byddai'r cerbydau'n cael eu hamserlennu ar gyfer llefydd lle na fu presenoldeb heddlu parhaol yn rheolaidd o'r blaen ac y byddai'r timau plismona bro ynghlwm wrth ddethol y lleoliadau - byddai'r cerbydau'n cael eu defnyddio i ehangu'r gwasanaeth yn hytrach nag i gymryd lle gwasanaethau a fyddai'n cael eu tynnu'n ôl. Ni wyddid beth fyddai lleoliad y cerbyd cyntaf ar hyn o bryd. Gofynnodd SR a oedd cynllun i werthuso neu adolygu'r gorsafoedd heddlu symudol. Cadarnhaodd y PG y byddai'r Heddlu'n edrych ar adolygiad tri mis er mwyn eu hystyriaeth hwy eu hunain ac y byddai adolygiad chwe mis yn cynnwys a oedd y gwasanaeth yn cael effaith ar y cyhoedd a'i werthuso yn erbyn cost y prosiect. Byddai'r adolygiad chwe mis yn cael ei gynnal yn Nhachwedd.

**Cam Gweithredu: Yr Heddlu i ddarparu adolygiad chwe mis o'r gorsafoedd heddlu symudol gan nodi'r modd y maent yn cael eu lleoli ac unrhyw welliannau sydd angen.**

***Diweddariad CISCO***

Rhoddodd yr Uwch-arolygydd Curtis ddiweddariad i'r Bwrdd fod Gwasanaethau Gwybodaeth a Thechnoleg wedi cwrdd â CISCO ar 23 Mawrth a'u bod nawr wedi cael y cyfle i gychwyn deialog manwl gyda hwy ynghylch y pecyn diweddaru meddalwedd ymdrin â galwadau a fydd gobeithio mewn lle erbyn diwedd y flwyddyn. Rhoddir diweddariad pellach yng nghyfarfod mis Mai Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu.

Roedd CHTh wedi ei galonogi fod cyfarfod wedi digwydd ond cwestiynodd yr amser yr oedd wedi ei gymryd i hyn ddigwydd ac a fyddai diweddariad yn cynnwys diweddariadau i bob pecyn meddalwedd. Gofynnodd CHTh hefyd a allai'r dyddiad ar gyfer diweddaru'r feddalwedd gael ei symud ymlaen. Dilynodd trafodaethau ar y materion y daethpwyd ar eu traws yn ystod y broses hon, y costau oedd ynghlwm â hyn a'r pryder ynghylch colli gwybodaeth a fyddai wedi gallu caniatáu gwell perfformiad os byddai'r diweddariad wedi ei osod ar ddyddiad cynharach. Nododd yr Uwch-arolygydd Curtis fod GGaTh yn disgwyl diweddariad mewn perthynas â rheoli'r dechnoleg y system a bod CISCO yn disgwyl dyddiad rhyddhau ar gyfer y feddalwedd. Bydd y diweddariad yn cynnwys eglurhad pellach ar yr hyn y gall CISCO ei ddarparu a bydd angen i'r Heddlu ei weld yn gweithio cyn y gallant ymrwymo ymhellach. Nododd CHTh unwaith yn rhagor fod y mater ymdrin â galwadau wedi bod ar yr agenda am amser hir ac na ellid esbonio'r oedi drwy roi'r bai yn llwyr ar y darparwr. Nid oedd y prosesau mewnol yn derbyn yr ymateb angenrheidiol gan y darparwr a dylid asesu'r darn hwnnw.

**Cam Gweithredu: Yr Heddlu i ddarparu diweddariad ar CISCO ym Mwrdd Atebolrwydd yr Heddlu mis Mai**

***Canolfan Ddiogelu Amlasiantaethol (MASH)***

Cadarnhaodd y PGC fod y Ganolfan wedi ei throsglwyddo i Fwrdd CYSUR ar 17 Mawrth a bod CYSUR nawr yn ffurfiol yn berchen ar ddatblygiad y Ganolfan. Cytunwyd yn y Bwrdd hwnnw y byddai CYSUR yn cyllido ymgynghorydd ar raddfa tymor byr i edrych ar y dyluniad a sut y bydd yn gweithio. Mae Cyngor Sir Gâr wedi cytuno dod o hyd i leoliad addas yng Nghaerfyrddin. Cytunwyd ar amserlen o 6 i 8 wythnos ar gyfer y gwaith hwn a

byddai adroddiad ac argymhellion ar gyfer symud ymlaen yn cael eu cyflwyno yng nghyfarfod mis Mai Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu.

Gofynnodd CHTh pam yr oedd angen ymgynghorydd gan fod yr opsiynau ar gyfer datblygu'r Ganolfan a phwrpas y Bwrdd wedi'u trafod yn Ionawr. Nododd y PGC fod hyn fwy na thebyg oherwydd yr angen i ymgysylltu ag awdurdodau eraill. (Mae Sir Gâr yn rhan o hyn; mae Sir Benfro a Cheredigion yn rhan mewn egwyddor ond nid ydynt wedi cadarnhau a fyddant yn cyfrannu). Dilynodd trafodaethau ynghylch cyllido yn ymwneud â'r Ganolfan. Nododd y PGC mai Cadeirydd y Bwrdd oedd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Sir Gâr a'i fod yn fwrdd a oedd yn cael ei redeg yn amlasiantaethol ac nid yn cael ei arwain gan yr Heddlu - cynrychiolydd yr Heddlu yw'r ditectif Uwch-arolygydd Andy John. Holodd CHTh sut y bydd yr Heddlu'n sicrhau y bydd trosglwyddiad y Ganolfan yn digwydd ar amser ac a ragwelwyd unrhyw feini tramgwydd rhag symud ymlaen fel y cynlluniwyd. Cadarnhaodd y PG y gallai'r Heddlu ddylanwadu ar y Bwrdd o safbwynt Plismona a bod y Bwrdd yn atebol iddynt o ran trosglwyddo. Trafodwyd y materion a allai effeithio ar drosglwyddiad y Ganolfan. Trafodwyd costau ac adnoddau'r Ganolfan hefyd. Gofynnodd CHTh am ddiweddariad ar y Ganolfan Ddiogelu Amlasiantaethol ar ôl y cyfnod 6 i 8 wythnos a fyddai'n cynnwys y camau nesaf.

**Cam Gweithredu: Yr Heddlu i ddarparu diweddariad ar y Ganolfan Ddiogelu Amlasiantaethol yng nghyfarfod mis Mai'r Bwrdd**

I grynhoi, nododd CHTh y gallai'r Adroddiad Atebolrwydd fod wedi cynnwys llawer mwy o wybodaeth nag yr ysgrifennwyd gan ei fod yn glir o'r trafodaethau fod llawer mwy yn digwydd. Gofynnodd CHTh i fwy o fanylion gael eu cynnwys mewn adroddiadau yn y dyfodol. Roedd CHTh wedi'i galonogi o weld cynnydd wrth recriwtio Cwnstabliaid Gwirfoddol, plismona gwledig a gorsafoedd heddlu symudol.

Yna gofynnodd CHTh am ddiweddariad ar Rhybudd Cymunedol/*Community Alert*, yn enwedig y materion meddalwedd. Nododd yr Uwch-arolygydd Curtis fod tendr drafft wedi ei baratoi, a chyhyd â bod yr Adran Gaffael yn hapus gyda'r cynnwys, bydd yn cael ei anfon allan cyn gynted â bod hynny'n bosibl. Dilynodd trafodaeth ar yr amser y cymerwyd i gyrraedd y cam hwn a'r broses gaffael. Dwedodd yr Uwch-arolygydd Curtis y bu problem contract gydag un o'r darparwyr presennol a oedd nawr wedi ei ddatrys.

Gofynnodd CHTh am sicrwydd y byddai'r tendr yn cael ei lwytho i fyny yn y cwpl o wythnosau nesaf. Nododd y PG y byddai'r Heddlu'n gofyn cyngor yr Adran Gaffael ynghylch faint o amser y byddai'r broses yn cymryd o hynny ymlaen.

**Adroddiad Atebolrwydd SCHTh ar Flaenoriaeth 4**

***Arolwg Bodlonrwydd – Ymdrin â Chwynion***

Rhoddodd KP ddiweddariad i'r Bwrdd mewn perthynas ag Ymdrin â Chwynion ac Ymgynghori Cyhoeddus. Nododd KP fod nodweddion tebyg i rai o ganlyniadau holiaduron Bodlonrwydd Dioddefwyr yr Heddlu ac Arolwg Bodlonrwydd – Ymdrin â Chwynion y Swyddfa Gwasanaeth Cyhoeddus. Mae mwyafrif yr unigolion yn hapus gyda mynediad i wybodaeth ynghylch sut i gwyno ond mae angen gwelliant o ran ymchwiliadau dilynol a chyfathrebu. Nododd KP y dychwelir at hyn a'i werthuso chwe mis ar ôl sefydlu'r Swyddfa er mwyn gweld sut y bydd wedi llwyddo o ran hyder a bodlonrwydd y cyhoedd.

***Diweddariad Ystadau***

Rhoddodd y PSA ddiweddariad i'r Bwrdd y byddai'r gwahoddiad i dendro ar gyfer y Penseiri yn mynd allan i dendr heddiw.

**Adroddiad Monitro Perfformiad SCHTh**

Cyflwynodd SR adroddiad perfformiad SCHTh i'r Bwrdd a oedd yn cynnwys ffigurau hyd at Chwefror. Nododd SR y byddai'r adroddiad yn cael ei gyflwyno i Banel yr Heddlu a Throseddu ar 24 Ebrill ac y byddai ffigurau hyd at fis Mawrth yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad hwnnw.

Gofynnodd SR am ganlyniadau'r archwiliad cofnodi trosedd lleol a gyflawnwyd yn ystod mis Mawrth. Rhoddodd SG ddiweddariad ar Gofnodi Trosedd. Cyflawnwyd Archwiliad o 175 o gofnodion gan gynnwys STORM i drosedd; Troseddau heb STORM a chofnodion PVP. Roedd y gyfradd cydymffurfio wedi codi i 85% o gymharu â'r 68% blaenorol. Cyflawnwyd yr Archwiliad hwn ar gofnodion Chwefror cyn i unrhyw weithredu adferol gael ei gyflawni a rhagwelir felly y dylai'r archwiliad nesaf ddangos cynnydd pellach. Cyflawnir Archwiliad cyflawn nawr ym Mehefin/Gorffennaf. Roedd SG yn fodlon fod gwelliant arwyddocaol wedi digwydd a bod yr Heddlu'n symud i'r cyfeiriad cywir.

Bydd Cofrestrydd Trosedd yr Heddlu nawr yn cydweithio'n agos â'r Uwch-arolygydd Andy John o ran cofnodion PVP; fodd bynnag ni nodwyd unrhyw batrymau pellach.

Trafododd SG Gynllun Gweithredu AHEM a chadarnhaodd fod ymagwedd strwythuredig yn cael ei gymryd ac y byddai pob argymhelliad yn cael eu hystyried maes o law. Gofynnodd SR a oedd yr argymhellion yn deg i Dyfed-Powys ac a oedd meysydd yr oedd angen eu blaenoriaethu. Nododd SG fod y ffocws ar hyn o bryd ar strwythur; proses / gweithdrefnau a hyfforddi / ymwybyddiaeth.

Gofynnodd CHTh i ganlyniadau'r archwiliad diweddar gael eu rhannu gyda'i swyddfa ef.

Nododd SR y bu cynnydd sylweddol o ran troseddau rhyw yn ystod y chwarter diwethaf a gofynnodd a oedd y rhesymau am y cynnydd diweddar hwn yn hysbys. Nododd y PG fod y cynnydd ers Rhagfyr 2014, yn rhannol, yn ganlyniad i'r newid o ran gofyniad y NCRS i drosedd gael ei chofnodi o fewn 24 awr. Mae'r cynnydd hwn hefyd o ganlyniad i gynnydd mewn adroddiadau ar draws Cymru a Lloegr. Mae'r Heddlu wedi comisiynu darn o waith i archwilio tueddiadau mewn data troseddau rhyw mewn mwy o fanylder.

**Cam Gweithredu: yr Heddlu i rannu Cylchoedd Gorchwyl ar gyfer ymchwil a gomisiynwyd i archwilio tueddiadau mewn data troseddau rhyw mewn mwy o fanylder.**

**Cam Gweithredu: SR i drafod y Cylchoedd Gorchwyl gyda'r Uwch-arolygydd Aled Davies**

Dilynodd trafodaeth ynghylch troseddau cyhoeddiadau anllad a gofynnodd CHTh pwy oedd yn riportio'r troseddau. Nodwyd eu bod yn cael eu riportio'n bennaf gan rieni a'r ysgol, rhai gan weithwyr cymdeithasol ac un gan nyrs ysgol. Cadarnhawyd nad yw plant yn cael eu troseddoli o ganlyniad i'r troseddau hyn. Cadarnhaodd y PGC nad oedd unrhyw blentyn wedi cael ei erlyn. Gofynnodd CHTh am wybodaeth bellach ynghylch troseddau cyhoeddiadau anllad.

**Cam Gweithredu: Yr Heddlu i ddarparu niferoedd y troseddau cyhoeddiadau anllad a riportiwyd gan rieni a/neu ysgolion fel bod modd dadansoddi'r rhain ar gyfer tueddiadau.**

Gofynnodd SR a oedd Polisi Cydgysylltiad Hysbysadwy'r Heddlu wedi ei dorri ac a gymerwyd unrhyw gamau o ganlyniad i hynny. Nodwyd nad oedd gan yr Heddlu unrhyw fodd o adolygu unrhyw gydgysylltiad ac na allai ond annog swyddogion a staff i ddod ymlaen eu hunain. Hyd yn hyn, nid oedd unrhyw aelod o staff wedi torri'r polisi hwn.

Holodd SR am y rhesymau am yr amrywiannau ar draws ardaloedd tiriogaethol mewn perthynas â dioddefwyr cam-drin domestig a nododd fod nifer y digwyddiadau i bob dioddefwr/wraig risg uchel ar ei uchaf yn Sir Benfro. Cafwyd trafodaeth ynghylch y nifer bychan o ddata oedd ar gael i wneud unrhyw gymariaethau. Cytunwyd edrych ar ffigurau llynedd er mwyn cynyddu maint y sampl.

**Cam gweithredu: SR i gynyddu maint y sampl ynghylch data cam-drin domestig er mwyn edrych am batrymau dros gyfnod o amser.**

Gofynnodd SR a oedd Ymgyrch Celtic wedi ei gwblhau a beth oedd y canfyddiadau. Adolygiad ac asesiad o'r canfyddiadau yn adroddiad Rotherham yw Ymgyrch Celtic, a hynny er mwyn pennu'r modd gorau i'w gweithredu o fewn yr Heddlu. Adroddodd yr Heddlu fod Ymgyrch Celtic wedi ei gwblhau a bod 10 maes gwelliant wedi eu nodi. Gofynnodd CHTh i ganlyniadau'r adolygiad gael eu rhannu gyda'i swyddfa ef. Cadarnhaodd y PG y byddai'n rhannu'r adroddiad yn dilyn cyfarfod Grŵp y Prif Swyddogion yfory.

**Cam gweithredu: yr Heddlu i rannu argymelliadau Ymgyrch Celtic yn dilyn trafodaeth Grŵp y Prif Swyddogion.**

Dilynodd trafodaeth am Hawl y Dioddefwr i Adolygiad, sy'n ddatblygiad newydd a ddaeth i rym ar 1 Ebrill. Gofynnodd SR beth fyddai'r goblygiadau o ran adnoddau i'r Heddlu. Mae hyn yn anodd ei ragweld ar hyn o bryd. Bydd CHTh yn monitro'r modd y gweithredir y polisi hwn dros y misoedd i ddod er mwyn sicrhau bod dioddefwyr yn cael cynnig yr hawl i ofyn am adolygiad o'u hachos.

Crynhodd KP y nifer o adroddiadau o anfodlonrwydd a bodlonrwydd yr oedd y Swyddfa Gwasanaeth Cyhoeddus wedi eu derbyn ers eu sefydlu ar 1 Chwefror. Gwnaed nifer o fân newidiadau a gwelliannau i'r prosesau. Pasiwyd 22 o achosion i'r Adran Safonau Proffesiynol fel cwynion swyddogol. Trafodwyd sut yr oedd y ffigurau'n cymharu â'r hyn a ddisgwylid. Cynhelir adolygiad ar y pwynt chwe mis i gynnwys y modd y mae'r Biwro'n ymdrin â chwynion a chanmoliaethau, y modd y maent yn cael eu derbyn, a pha mor

gyflym y rheolir troad y gwaith. Nododd y PG ei fod wedi gobeithio gweld gostyngiad o ran cwynion swyddogol ond ei fod yn gweld bod pethau i weld yn symud i'r cyfeiriad cywir.

Nododd y PSA fod gwariant misol ar swyddogion yr heddlu llawer yn is nag o'r blaen. Nododd y PSA hefyd effaith y rhaglen Y Cyhoedd Yn Gyntaf mewn perthynas â gwariant misol ar staff yr heddlu. Bydd y canlyniadau ar gyfer y flwyddyn yn cael eu dadansoddi mewn mwy o fanylder unwaith y bydd y canlyniadau ar gyfer y flwyddyn ar gael.

Nodwyd bod arolwg Hyder y Cyhoedd i ddigwydd yng Ngorffennaf.

**Adroddiadau diweddaru**

**a. Diweddariad Cynllun Trosglwyddo'r Heddlu a Throseddu**

Cyflwynodd SR ddiweddariad o Gynllun Trosglwyddo'r Heddlu a Throseddu a oedd nawr yn cael ei riportio mewn modd gwahanol.

Nid oedd unrhyw fusnes arall.

**Camau Gweithredu:**

| CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU | | |
|---|---|---|
| Rhif cam gweithredu | Cam Gweithredu | I'w symud yn ei flaen gan |
| **PAB 207** | **Yr Uwch-arolygydd Curtis a Thimau Plismona Bro i nodi'r blaenoriaethau allweddol ar gyfer pob ardal a'r graddfeydd amser.** | **Yr Heddlu** |
| **PAB 208** | **Yr Heddlu i ddarparu crynodeb o gostau'r gorsafoedd heddlu symudol gan gynnwys costau rhedeg cyfredol.** | **Yr Heddlu** |
| **PAB 209** | **Yr Heddlu i ddarparu adolygiad chwe mis o'r gorsafoedd heddlu symudol gan nodi'r modd y maent yn cael eu lleoli ac unrhyw welliannau sydd angen.** | **Yr Heddlu** |
| **PAB 210** | **Yr Heddlu i ddarparu diweddariad ar CISCO ym Mwrdd Atebolrwydd yr Heddlu mis Mai** | **Yr Heddlu** |
| **PAB 211** | **Yr Heddlu i ddarparu diweddariad ar y Ganolfan Ddiogelu Amlasiantaethol yng nghyfarfod mis Mai'r Bwrdd** | **Yr Heddlu** |

| | | |
|---|---|---|
| **PAB 212** | **Yr Heddlu i rannu Cylchoedd Gorchwyl ar gyfer ymchwil a gomisiynwyd i archwilio tueddiadau mewn data troseddau rhyw mewn mwy o fanylder.** | **Yr Heddlu** |
| **PAB 213** | **SR i drafod y Cylchoedd Gorchwyl gyda'r Uwch-arolygydd Aled Davies** | **SR** |
| **PAB 214** | **Yr Heddlu i ddarparu niferoedd y troseddau cyhoeddiadau anllad a riportiwyd gan rieni a/neu ysgolion fel bod modd dadansoddi'r rhain ar gyfer tueddiadau.** | **Yr Heddlu** |
| **PAB 215** | **SR i gynyddu maint y sampl ynghylch data cam-drin domestig er mwyn edrych am batrymau dros gyfnod o amser.** | **SR** |
| **PAB 216** | **Yr Heddlu i rannu argymelliadau Ymgyrch Celtic yn dilyn trafodaeth Grŵp y Prif Swyddogion.** | **Yr Heddlu** |